# Hyfforddiant Awtistiaeth i Fwrdd

## Taflen Gyngor i Gleifion

Mae'r daflen hon yn cynnig cyngor i gleifion awtistig ar gael mynediad i ofal iechyd gydag awgrymiadau ar beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl yr apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu.

Gall apwyntiadau fod mewn person, dros y ffôn, ar e-bost neu alwad ar y we. Oherwydd y pandemig Covid-19 presennol, efallai bod yna newidiadau parhaus yn y camau i gael mynediad i ofal iechyd. Er enghraifft, byddwch angen rhoi caniad i'r feddygfa i drefnu apwyntiad cyn i chi fynychu. Efallai bydd drws gwahanol i ddod i mewn ac allan o'r adeilad sy'n wahanol i fel oedd pethau cyn y pandemig. Ni fyddwch yn gallu troi i fyny yn fuan ac eistedd mewn ystafell aros cyn eich apwyntiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth yw'r rheolau newydd yn eich meddygfa leol oherwydd Covid-19 drwy edrych ar eu gwefan neu ffoniwch y feddygfa i ofyn.

## Cyn

### Pasbort Meddygol

Oes gennych chi basport meddygol? Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS) wedi creu pasbort meddygol a fydd o bosib o ddefnydd i chi. Llenwch y pasbort a'i anfon i'ch meddygfa cyn eich apwyntiad.


Mae'r pasbort ar gael drwy'r ddolen ganlynol (dim ond yn y Saesneg mae ar gael ar hyn o bryd): https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/physical-health/my-health-passport. Cofiwch fynd â chopi o'ch pasbort meddygol gyda chi i'ch apwyntiad.

### Cael Mynediad i'r Gwasanaeth

Pan fyddwch yn ffonio'r feddygfa i drefnu apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu neu nyrs, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn beth sydd angen i chi ei wneud i gael mynediad i'r gwasanaeth. Ydi eich apwyntiad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb? Os felly, beth fydd angen i chi ei wneud pan fyddwch yn cyrraedd? A fyddwch chi angen dod â masg efo chi? A fydd yr apwyntiad yn cael ei gynnal ar y we, pa blatfform a ddefnyddir (h.y. Zoom, Skype, MS Teams ac ati)?

### eYmgynghori

Os nad ydych yn hoffi defnyddio’r ffôn efallai y gallwch drefnu apwyntiad ar-lein trwy eYmgynghori: https://patients.econsult.health/. Os nad ydych yn gwybod beth sydd o’i le arnoch mae yna nodwedd ar y platfform hwn sy’n eich galluogi i glicio ar y rhan o’r corff sy’n achosi anesmwythdra neu boen i chi. Mae’n edrych fel hyn:




Fodd bynnag, ni fydd yr holl feddygfeydd yn defnyddio’r platfform hwn ac efallai y byddwch angen trefnu apwyntiad dros y ffôn os nad yw eich meddygfa ar y rhestr.

**Paratoi**

Cyn i chi weld eich Meddyg Teulu neu nyrs, nodwch restr o’r pethau y hoffech eu trafod yn yr apwyntiad rhag ofn i chi anghofio gwneud hynny. Nodwch unrhyw salwch hirdymor neu alergeddau sydd gennych (h.y. alergedd i gnau) a hefyd nodwch y rhesymau penodol ar gyfer trefnu’r apwyntiad hwn (h.y. poen yn eich stumog).

Cyn i chi fynychu’r apwyntiad gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i’r feddygfa dros y ffôn neu ar e-bost beth yw’r rheolau newydd oherwydd Covid-19. Gofynnwch a gewch chi ddod â rhywun gyda chi i’r apwyntiad (h.y. rhiant/gofalwr). Efallai na fyddwch yn cael dod i mewn i’r feddygfa nes ei bod hi’n amser eich apwyntiad, felly peidiwch â chyrraedd yn gynnar fel y byddech yn arfer ei wneud cyn Covid-19.

## Yn ystod

**Pasbort Meddygol**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos eich pasbort meddygol i'r Meddyg Teulu neu nyrs ar ddechrau'r apwyntiad.

### Cyfathrebu

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yr hyn y mae eich Meddyg Teulu neu nyrs yn ei ddweud wrthych. Os nad ydych yn deall, gofynnwch am eglurhad, neu iddyn nhw ailadrodd y wybodaeth.

Efallai y byddai o ddefnydd i chi ofyn i'ch Meddyg Teulu neu nyrs i nodi'r hyn y maen nhw'n ei ddweud rhag ofyn i chi anghofio. Drwy wneud hyn gallwch ddarllen dros y wybodaeth eto ar ôl cyrraedd adref, neu ei ddangos i rywun sydd o bosib angen gwybod beth sy'n bod arnoch (h.y. y fferyllydd neu riant/gofalwr).

### Y Camau Nesaf

Cyn i chi adael yr apwyntiad, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf.

- Ydych chi angen mynd i'r fferyllfa i gasglu eich meddyginiaeth ar bresgripsiwn?
- Ydych chi angen cael eich atgyfeirio i wahanol feddygfa neu ysbyty? Os felly, gwnewch yn siŵr fod eich Meddyg Teulu, nyrs neu staff y feddygfa yn eich helpu i drefnu eich apwyntiad nesaf ac i roi gwybodaeth ar sut i gyrraedd yno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pam eich bod yn cael ei atgyfeirio i apwyntiad arall, h.y. sgan.

## Wedyn

### Presgripsiynau

Os ydych wedi derbyn presgripsiwn, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r fferyllfa ar ôl eich apwyntiad i gasglu eich meddyginiaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'r fferyllydd **sut** i gymryd y feddyginiaeth. Oes angen cymryd y feddyginiaeth gyda bwyd? Sawl gwaith y dydd ydych angen cymryd y feddyginiaeth?

Os ydych yn cael unrhyw broblemau gyda'r feddyginiaeth, neu ddim yn teimlo dim gwell ar ôl ei gymryd, gallwch fynd yn ôl i'r fferyllfa i siarad gyda fferyllydd. Dylai'r feddyginiaeth eich gwneud chi deimlo'n well, nid yn waeth.

Os nad ydych eisiau siarad gyda'r fferyllydd gallwch fynd yn ôl i weld eich Meddyg Teulu neu nyrs ond mae'n rhaid i chi ffonio'r feddygfa cyn i chi droi i fyny yno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu apwyntiad arall gyda'r Meddyg Teulu neu nyrs os nad ydych yn teimlo'n well.